Cofnodion **Cyfarfod Blynyddol CYNGOR TREF RHUTHUN** a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Ffordd Wynnstay, Rhuthun nos Lun, **14 Mai 2018** am **7.00p.m.**

PRESENNOL: Y Cynghorydd Jim Bryan (**Maer**), y Cynghorydd Ian Lewney (**Dirprwy Faer**) a'r Cynghorwyr Keiran Allsopp-Robson, Stephen Beach, Gavin Harris, Ken Hawkins, John Wynne Hughes, Rosie Hughes, Robert Owen-Ellis, Anne Roberts, Dave Snape, Heather Williams, Ifan Wyn ac Emrys Wynne;
hefyd y Cynghorwyr Sir Bobby Feeley a Huw Hilditch-Roberts.

1. GWEDDI AGORIADOL

Esboniodd y Maer fod y Parchedig Stuart Evans wedi ymddiheuro am ei absenoldeb, ac felly ni fyddai gweddi agoriadol yn y cyfarfod eleni. Ychwanegodd fod y Parchedig Evans wedi gadael anrheg o ddwy lechen i'w llofnodi gan y Maer, y Dirprwy Faer ac aelodau Cyngor Tref Rhuthun i'w defnyddio fel rhan o waith adnewyddu to Eglwys Sant Pedr.

2. CROESO AC YMDDIHEURIADAU

Croesawodd y Maer bwysigion Dinesig, Cynghorwyr a'r cyhoedd i'r Cyfarfod Blynyddol. Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorydd Menna Jones a'r Parchedig Stuart Evans.

3. ANERCHIAD Y MAER

Dywedodd y Maer, y Cynghorydd Jim Bryan, y bu'n fraint ac anrhydedd gwasanaethu fel Maer y Dref a'i fod wedi mwynhau mynychu amrywiaeth o ddigwyddiadau yn ystod y flwyddyn, a chyfeiriodd at rai o uchafbwyntiau ei flwyddyn fel Maer a dyheadau'r Cyngor Tref i'r dyfodol. Diolchodd i'w Faeres, Ms. Eilwen Jones, y Dirprwy Faer a chyd-gynghorwyr, ei gaplan a Chlerc y Dref am eu cymorth yn ystod ei gyfnod yn y swydd. Cyhoeddoedd ei fod wedi casglu £7,000.00 yn ei Gronfa Elusennol a diolchodd i bawb a oedd wedi'i gynorthwyo gyda'i ymdrechion codi arian.

4. CYFLWYNO CYFRANIADAU O GRONFA ELUSENNOL Y MAER

Cyflwynodd y Maer sieciau am £420 i grwpiau ieuenctid gwirfoddol yn Rhuthun, sef y Brownies, Geidiaid, Sgowtiaid, Cubs, ATC, Theatr Ieuenctid, Clwb Hoci Ieuenctid, Clwb Peldroed Ieuenctid, Clwb Rygbi Ieuenctid, Clwb Criced Ieuenctid, Clwb Tennis Ieuenctid, Clwb Ffermwyr Ifanc, Clwb Nofio a'r Cadetiaid Tân.

5. GWOBRAU DINESYDD DA / PERSON IFANC / GRŴP CYMUNEDOL Y FLWYDDYN 2018

Esboniodd y Maer fod yr unigolyn a enwebwyd i dderbyn Gwobr Dinesydd Da'r Flwyddyn wedi penderfynu nad oedd yn dymuno derbyn y wobr. Cyhoeddwyd mai enillydd Gwobr Person Ifanc y Flwyddyn 2018 oedd Huw Wynne Jones, yn gwneud ei farc gyda chwaraeon ac yn rhagori ym maes athletau ac wedi'i ganmol am ei ymrwymiad i weithgareddau elusennol a chymorth i ddisgyblion eraill yn yr ysgol hefyd. Cyflwynwyd tystysgrif wedi'i fframio a siec am £100.00 i'r achos o'i ddewis, Clwb Rygbi Rhuthun. Cyflwynwyd categori newydd eleni, Grŵp Cymunedol y Flwyddyn, a chyflwynwyd y wobr gyntaf i Grŵp Panto Rhuthun am fod yn griw cynhwysol sy'n apelio at ac yn croesawu cyfranogwyr o bob oedran, a chyflwynwyd siec am £100.00 i Grŵp Panto Rhuthun.

6. DIOLCHIADAU I'R MAER

Diolchodd y Dirprwy Faer, y Cynghorydd Ian Lewney, i'r Maer ar fin ymddeol, y Cynghorydd Jim Bryan, am ei waith caled ar ran pobl y dref a'r Cyngor Tref. Cyflwynodd Blac y Dref iddo a chyflwynodd anrhegion iddo a'r Faeres, ar ran y Cyngor Tref.

7. COFNOD PRESENOLDEB AELODAU

Derbyniwyd manylion am bresenoldeb aelodau yng nghyfarfodydd y Cyngor Tref a'i bwyllgorau yn ystod blwyddyn ddinesig 2017/2018, a llongyfarchodd y Maer yr aelodau â chanran presenoldeb 100% yng nghyfarfodydd y Cyngor a chyfarfodydd y Pwyllgorau.

8. ADRODDIAD BLYNYDDOL YR IS-BWYLLGOR CYNLLUN IAITH GYMRAEG

Gofynnodd y Maer i Gadeirydd yr Is-bwyllgor ac awdur yr adroddiad, y Cynghorydd Emrys Wynne, gyflwyno'r eitem. Esboniodd y Cynghorydd Wynne mai'r nod oedd hyrwyddo defnydd y Gymraeg a galluogi pobl i ddefnyddio'u dewis iaith. Nododd bod Cyngor Tref Rhuthun wedi cyflwyno cyfieithu ar y pryd yn ei gyfarfodydd Pwyllgor ers mis Medi ac y byddai'n diweddaru ei Gynllun Iaith Gymraeg i adlewyrchu hyn.

9. ETHOL MAER 2018/2019

Yn dilyn cynnig gan y Cynghorydd Stephen Beach, a eiliwyd gan y Cynghorydd Keiran Allsopp-Robson, penderfynwyd yn unfrydol ethol y Cynghorydd Ian Lewney yn Faer y Dref am y flwyddyn ddinesig 2018/2019. Yna cafodd ei arwisgo gyda'r Clogyn a Chadwyn y Maer.

10. DATGAN DERBYN Y SWYDD GAN Y MAER

Ar ôl gwneud a llofnodi'r datganiad angenrheidiol, diolchodd y Cynghorydd Ian Lewney i'w gynigydd a'i eilydd, y Maer wedi ymddeol a'i gyd-Gynghorwyr am ei anrhydeddu yn y fath fodd. Diolchodd i'w deulu a'i bartner am eu cefnogaeth hefyd.

11. ETHOL DIRPRWY FAER 2018/2019

Yn dilyn cynnig gan y Cynghorydd Anne Roberts, a eiliwyd gan y Cynghorydd Rosie Hughes, penderfynwyd yn unfrydol ethol y Cynghorydd Gavin Harris yn Ddirprwy Faer am y flwyddyn ddinesig 2018/2019. Yna cyflwynodd y Maer Gadwyn y Dirprwy Faer i'r Cynghorydd Gavin Harris ac fe lofnodoidd y datganiad derbyn y swydd.

12. DYDDIADAU NODEDIG

Hysbysodd y Maer yr aelodau y byddai'r Gwasanaeth Sul Dinesig yn cael ei gynnal ddydd Sul, 8 Gorffennaf 2018 yn Eglwys Sant Pedr, gyda chinio i ddilyn yng Nghlwb y Dyffryn, ac y byddai Cinio Elusennol y Maer yn cael ei gynnal nos Sadwrn, 17 Tachwedd 2018, eto yng Nghlwb y Dyffryn.

13. GWEDDI DERFYNOL

Yn absenoldeb ei Gaplan, gwahoddodd y Maer bawb a oedd yn bresennol i fwynhau lluniaeth ysgafn ar ôl y cyfarfod.